

Angen amser i wella?

Ffeithlen 12

(Medi 2017)

Weithiau, pan fyddwch yn gwella ar ôl salwch neu lawdriniaeth, mae angen amser arnoch i adennill eich cryfder, hyder, sgiliau ac annibyniaeth i'r graddau mwyaf posibl cyn dychwelyd adref.

Rydym yn deall hyn, ac o ganlyniad wedi datblygu gwasanaethau yn yr awdurdod lleol sy'n darparu ailalluogi preswyl yn y tymor byr.

Beth mae ailalluogi preswyl yn y tymor byr yn ei gynnig?

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi cyfle i chi wella a chryfhau'n raddol mewn llety â chymorth ar ôl llawdriniaeth neu salwch, a fydd yn eich galluogi i gynyddu eich hyder, eich annibyniaeth, a gwella eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd cyn dychwelyd adref.

Pwy sy'n gymwys?

Mae'r llety ar gael i bobl sydd dros 65 oed, sydd â nodau rhesymol gyraeddadwy, ac sy'n gallu cyfranogi a chydweithredu â therapïau, ac sydd:

- Yn ddigon iach yn feddygol, yn ôl asesiad, i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, sydd heb fod angen triniaeth feddygol arnynt ar hyn o bryd mewn ysbyty, ac sydd angen gwasanaeth ailalluogi preswyl yn y tymor byr.
- Yn byw gartref heb fod arnynt angen mynd i mewn i'r ysbyty, ond sydd angen ailalluogi preswyl yn y tymor byr yn dilyn salwch neu anaf.

Beth yw'r manteision i mi?

Nid oes neb am aros yn yr ysbyty'n hirach nag sydd angen, ac ailalluogi preswyl yw'r cam nesaf cyn mynd adref. Ymgynghorir â chi a bydd yn rhaid cael eich caniatâd cyn ichi symud i leoliad ailalluogi preswyl. Gofynnir i chi lofnodi cytundeb ar gyfer hyn.



Pa mor hir byddwch yn aros yno?

Mae'r amser y mae pobl yn ei gymryd i wella yn amrywio – bydd rhai'n gwella'n gyflym iawn tra bydd eraill yn cymryd ychydig yn hirach. Fodd bynnag, dim ond am hyd at chwe wythnos y gall pobl aros yno a bydd yr asesiad therapiwtig yn dangos pa mor fuan y gallwch ddychwelyd adref. Cyn ichi gael eich derbyn i'r uned ailalluogi preswyl, bydd y therapyddion wedi trafod eich nodau personol ar gyfer yr arhosiad â chi. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu bob wythnos i sicrhau eich bod yn manteisio cymaint â phosibl ar y gwasanaeth a'ch bod yn cyflawni eich nodau yn y ffordd orau cyn ichi adael.

Ble mae'r lleoliadau ailalluogi preswyl?

Ceir unedau ar wahân sy'n cynnig y gwasanaeth hwn yng nghartrefi gofal yr awdurdod lleol sef Llys y Bryn, Llanelli lle mae uned â 12 gwely a Maesllewellyn, Castellnewydd Emlyn lle mae uned ag 8 gwely.

Sut beth fydd y lleoliad ailalluogi preswyl?

Llys y Bryn, Llanelli a Maesllewellyn, Castellnewydd Emlyn yw'r unedau mwyaf modern yn Sir Gaerfyrddin ac maent yn cynnig llety sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif. Mae gan yr holl ystafelloedd gwely gyfleusterau en-suite, ac mae lolfa a chegin gyffredin lle gallwch baratoi diodydd twym a byrbrydau unrhyw bryd.

Pa wasanaethau y gallaf eu disgwyl?

Bydd y staff yn eich helpu ac yn eich annog i gadw ac i wella eich annibyniaeth. Mae'n hanfodol eich bod yn chwarae rhan weithgar yn y nod hwn er mwyn ichi wella.

Faint byddaf yn ei dalu am y llety?

Nid oes tâl am y gwasanaeth ailalluogi preswyl ond bydd eich angen am y gwasanaeth yn cael ei adolygu bob wythnos i sicrhau eich bod yn manteisio cymaint â phosibl ar y gwasanaeth cyn ichi adael y cartref. Fel y nodir uchod, mae'r cyfnod ailalluogi preswyl hyd at chwe wythnos. Codir tâl arnoch o'r dyddiad pryd y penderfynir drwy asesiad eich bod wedi cyflawni eich nodau ac nad oes angen ailalluogi preswyl arnoch mwyach. Hefyd os penderfynir drwy asesiad, yn ystod y cyfnod chwe wythnos, nad ydych yn gallu cyflawni eich nodau neu eich bod wedi gwneud cymaint o gynnydd tuag at y nodau hynny â phosibl, codir tâl arnoch o'r pwynt hwnnw ymlaen. Os na fyddwch yn cyflawni eich nodau yn y cyfnod chwe wythnos, codir tâl arnoch os bydd eich arhosiad yn mynd dros chwe wythnos. Fodd bynnag, os yw hyn yn edrych yn debygol, bydd gweithiwr cymdeithasol yn siarad â chi ynghylch hyn cyn bod y cyfnod o chwe wythnos yn dod i ben.

A oes unrhyw gostau eraill?

Os byddwch yn defnyddio unrhyw rai o'r gwasanaethau a ddarperir megis trin gwallt neu dderbyn papur newydd dyddiol, bydd angen ichi dalu'r costau cyfredol.

Sut byddaf yn cyrraedd yno ac yn gadael?

Os nad oes modd i deulu neu ffrindiau fynd â chi, gellir trefnu cludiant ar eich cyfer.

A fydd fy meddyg teulu yn galw i'm gweld?

Os yw'r uned yn agos at eich cartref, bydd eich meddyg yn galw i'ch gweld chi yno. Fodd bynnag, os yw'n rhy bell i'r meddyg ddod i'ch gweld byddwch yn cael eich cofrestru gyda meddyg lleol tra byddwch yno.

A fydd y nyrs gymunedol yn galw i'm gweld?

Bydd y nyrs gymunedol yn galw i'ch gweld os oes angen.

Beth am fy meddyginiaeth?

Byddwch yn gadael yr ysbyty â meddyginiaeth a chi fydd yn gyfrifol am honno. Os ydych yn dod i'r uned o'ch cartref, dylech ddod â'ch meddyginiaeth ac unrhyw bresgripsiynau gyda chi. Bydd cymorth ar gael i drefnu dosbarthu rhagor o feddyginiaeth os bydd ei hangen.

A fydd fy nheulu a'm ffrindiau yn gallu dod i'm gweld?

Mae croeso i ymwelwyr alw unrhyw bryd. Fodd bynnag, mae angen ichi ystyried y byddwch o bosibl yn cymryd rhan mewn sesiynau ailalluogi.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw:..... Teitl:

Rhif ffôn:.....

Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch 01267 228703



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:
www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol